# David Jones, 1797–1841
## Cenhadwr ym Madagascar

Ganwyd David Jones ym 1797 yn Mhenrhiw gerllaw Neuadd-lwyd, Aberteifi. Magwyd ef ar aelwyd Gristnogol ac yr oedd ei dad yn un o swyddogion capel Neuadd-lwyd. Trwythwyd y plant yn yr Ysgrythur ac ar nos Sul byddai eu tad yn darllen ac yn esbonio rhan o'r Beibl iddynt. Ar yr aelwyd hefyd y dysgodd ddarllen. Daeth o dan ddylanwadau ysbrydol yn gynnar a pharodd dau ddigwyddiad arbennig iddo feddwl am gyflwr ei enaid. Yn gyntaf syrthiodd oddi ar geffyl, ac yn ystod y tri mis y bu'n glaf, fe geisiodd Dduw yn ddyfal. Yr ail ddigwyddiad oedd gweld perthynas iddo'n cael ei dderbyn yn aelod o'r eglwys mewn oedfa Gymun. Daeth o dan deimlad dwys a dechreuodd wylo oherwydd ei gyflwr colledig a'i angen am Waredwr.

Ymgynghorodd â'i fam ac fe'i hanogodd ef i uno â phobl Dduw, ac felly y gwnaeth. Yn fuan teimlodd alwad i bregethu ac angen am ragor o addysg, felly pan oedd yn bedair ar ddeg aeth i athrofa ei weinidog, Dr Thomas Phillips, yn Neuadd-lwyd. Dechreuodd bregethu pan oedd yn un ar bymtheg oed, gan wasanaethu eglwysi'r cylch. Yn y cyfnod hwn cafodd weledigaeth a newidiodd gyfeiriad ei fywyd. Meddai, 'Gwelais fy hun, yng ngweledigaethau'r nos, yn pregethu ymhlith Paganiaid gyda hyfrydwch neilltuol', a chadarnhawyd hyn gan adnodau o'r Beibl, e.e. Rhuf.10:13-16. Daeth yr alwad gan Dduw i genhadu yn gryfach ac yn gryfach a phenderfynodd y byddai'n mynd i Fadagascar.

Gyda chymorth ei weinidog, gwnaeth David Jones, gais i'r Gymdeithas Genhadol. Cafodd eirda gan Thomas Phillips ac fe'i gefnogwyd gan dri ar ddeg o weinidogion. O ganlyniad fe'i hanfonwyd i Gosport, swydd Hampshire, am hyfforddiant pellach, ac yno priododd â Louisa Derby a oedd yn aelod yn eglwys yr Annibynwyr, Gosport.

Cynhaliwyd y cyfarfod i'w neilltuo i'r gwaith yng nghapel Neuadd-lwyd, 20 – 21 Awst 1817, ac fe'i dewiswyd i fynd i Affrica.

Hwyliodd ar y *Swallow* gan lanio ar ynys Mauritius ar ôl mordaith o bum mis. O'r fan honno dim ond mordaith o 400 milltir oedd hi i gyrraedd Madagascar. Croesodd David Jones a'i deulu i Tamatave ym Madagascar ond yn fuan cafodd ergyd drom pan fu farw ei wraig a'i blentyn bychan. Ymsefydlodd yn Antananarivo a phriododd â Mary Anne Mabille, aelod yn eglwys Le Brun, ac ymunodd cenhadwr arall o Gymru â hwy, sef David Griffiths.

Aeth y ddau ati i gyfieithu'r Beibl i'r Falagaseg, a'r cam cyntaf oedd ffurfio gwyddor. Gwnaed hyn gyda chydsyniad y brenin Radama a fu'n bur gefnogol iddynt. Bu gwrthdaro rhwng y ddau a'r cenhadwr o Sais John Jeffreys ynghylch pa lythrennau y dylid eu defnyddio i gyfleu synau yn y Falagaseg, a dim ond ar ôl marwolaeth Jeffreys ym 1827 y tawelodd y storm honno. Gweithiodd y ddau yn eithriadol o galed, ac erbyn mis Mawrth 1825 roeddent wedi ysgrifennu at y cyfarwyddwyr yn eu hysbysu eu bod wedi cyfieithu'r Testament Newydd a rhannau helaeth o'r Hen Destament.

Cyflawnwyd y gwaith hwnnw mewn dim ond pum mlynedd ar ôl i David Jones gyrraedd Madacasgar, ac erbyn 1830 roedd y Beibl cyfan wedi ei gyfieithu. Bu'r cenhadon hefyd yn sefydlu ysgolion mewn pentrefi er mwyn addysgu'r bobl, ond oherwydd salwch bu rhaid i David Jones adael yr ynys ym 1830 a mynd i Lundain am gyfnod. Dychwelodd i Mauritius ym 1838 gan ei defnyddio fel gorsaf i efengyleiddio, ac yno bu farw ym 1841.